Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Hysbysiad Preifatrwydd y Casgliad Data Ôl-16

**Ebrill 2026**
**Fersiwn 1.0**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cyflwyniad

Caiff y rhaglen ddysgu rydych yn astudio arni ei chyllido gan Medr. Medr yw enw Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru.

Er mwyn i chi gymryd rhan yn y rhaglen, rhaid i ni gael data personol gennych. Yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), y sail gyfreithlon y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(e) tasg gyhoeddus lle y bydd prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a gweinyddu a monitro'r cyllid a roddir gennym. Pan fyddwch yn rhoi gwybodaeth categori arbennig, megis ethnigrwydd, caiff ei phrosesu am resymau'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol (o dan Erthygl 9(2)(g)), ac at ddibenion archifo, at ddibenion gwaith ymchwil hanesyddol, ac at ddibenion ystadegol (o dan Erthygl 9(2)(j)). Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, caiff data categori arbennig eu prosesu o dan Atodlen 1, Rhan 1, Paragraff 4, at ddibenion archifo, at ddibenion gwaith ymchwil hanesyddol, ac at ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 84B o GDPR y DU am resymau'n ymwneud â budd y cyhoedd, ac Atodlen 1, Rhan 2, Paragraff 6 am resymau'n ymwneud â budd cyhoeddus sylweddol wrth gyflawni swyddogaethau statudol Medr.

Medr fydd y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol a roddir gennych o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

## At ba ddibenion y bydd Medr yn defnyddio eich gwybodaeth?

Bydd Medr yn defnyddio eich data at ddibenion cyllido, cynllunio a datblygu polisïau yn ogystal â monitro deilliannau disgyblion (megis ennill cymwysterau, cynnydd a chyrchfannau).

Hefyd, caiff eich data eu defnyddio mewn ystadegau swyddogol a gwaith ymchwil ynglŷn â dysgu ôl-16, gan gynnwys sut mae amgylchiadau unigolion yn effeithio ar ddeilliannau addysgol dysgwyr yng Nghymru.  Mae ein hadroddiadau ystadegau swyddogol yn rhoi darlun cyffredinol o ddysgwyr yng Nghymru, yr hyn y maent yn ei astudio, eu cyflawniadau, a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael byd addysg. Ymhlith yr enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei gynnwys mae gwybodaeth am batrymau o ran rhywedd dysgwyr, eu hoedrannau, a'r cymwysterau, pynciau a lefelau y maent yn eu hastudio.  Ni ellir adnabod dysgwyr unigol yn y cyhoeddiadau hyn.

Bydd sefydliadau ymchwil hefyd yn defnyddio data dysgwyr ôl-16 i werthuso polisïau a rhaglenni addysg yng Nghymru. Fel rhan o'r gwerthusiadau hyn, mae'n bosibl y byddant hefyd yn cynnal arolygon dysgwyr dewisol, a fydd yn asesu effaith rhaglen ar ddysgwyr unigol a hefyd yn cyfrannu at brosesau datblygu polisïau Medr a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Er mwyn i Medr werthuso effaith ei raglenni ar grwpiau penodol o ddysgwyr, byddwn yn cysylltu eich data â chofnodion addysgol eraill sydd gennym, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Byddwn yn defnyddio'r data cysylltiedig hyn i'n helpu i ddeall cynnydd a deilliannau dysgwyr yng Nghymru, er mwyn llywio ein gwaith ymchwil, ein mesurau perfformiad a'n cyhoeddiadau ystadegol.  Mae'n

bosibl y byddwn hefyd yn rhannu'r data cysylltiedig hyn ag ymchwilwyr a'n partneriaid, gan gynnwys Estyn, er mwyn eu helpu i gynnal eu dadansoddiadau data eu hunain i lywio arolygiadau ac adolygiadau. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol yn y data cysylltiedig y byddwn yn eu rhannu â'n partneriaid.

Mae rhestr fanwl o'r ffyrdd y caiff eich data eu defnyddio i'w gweld isod.

## Pa wybodaeth bersonol amdanoch chi y bydd Medr yn ei chasglu a'i defnyddio?

Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu data personol drwy borth trosglwyddo data diogel ar-lein a reolir gan Lywodraeth Cymru, ac yn eu trosglwyddo'n ddiogel i Medr. Fel y diffinnir yn Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae eich data personol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhif Unigryw'r Dysgwr (RhUD) | Rhif unigryw a ddyrennir i bob disgybl at ddibenion hwyluso dadansoddiadau ystadegol |
| Dynodydd Unigryw'r Dysgwr (DUD) | Rhif unigryw a ddyrennir i bob disgybl at ddibenion arholi |
| Hen RhUD | Er mwyn cofnodi unrhyw hen RhUDau |
| Cyfenw | |
| Enw cyntaf | |
| Enw(au) canol | |
| Cod post | |
| Rhyw | |
| Dyddiad geni | |

Bydd Medr hefyd yn prosesu data categori arbennig ar ddisgyblion:

| | |
|---|---|
| Dysgwr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu | Er mwyn monitro disgyblion ag anawsterau a/neu anableddau dysgu a ph'un a ydynt yn dysgu mewn amgylchedd ar wahân neu brif ffrwd |

Gweler Atodiad A am restr o'r meysydd data nad ydynt yn bersonol y bydd Medr yn eu casglu.

## Sut y bydd Medr yn defnyddio eich data'n fewnol?

- Mewn gwerthusiadau o raglenni a phrosiectau, er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch polisïau yn y dyfodol ar gyfer dysgu ôl-16.
- I fesur deilliannau dysgu ôl-16, gan gynnwys y cymwysterau a enillir gan ddisgyblion, eu cynnydd a'u cyrchfannau.
- I ddyrannu a monitro cyllid ar gyfer dysgu ôl-16.

- I hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes dysgu ôl-16 ledled Cymru, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

- I lunio ystadegau swyddogol dienw ar ddysgu ôl-16 yng Nghymru.

- I gysylltu â setiau data eraill at ddibenion ystadegol ac ymchwil, gan gynnwys llunio'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED). Bydd MED yn cysylltu'r Casgliad Data Ôl-16 â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a data'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch y bydd Medr yn eu defnyddio yn eu tro i ddeall cynnydd disgyblion drwy'r system addysg a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael byd addysg.

## Sut y bydd trydydd partïon yn defnyddio eich data?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y Casgliad Data Ôl-16 ar ran Medr ac yn prosesu'r data er mwyn casglu, dilysu a chyflenwi'r data i Medr.

Bydd Medr yn cysylltu eich data'n fewnol ac â chyrff llywodraeth allanol, megis Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i werthuso effaith rhaglenni dysgu.

Bydd y canlynol yn defnyddio eich data:

- Estyn, er mwyn cynnal arolygiadau o safonau fel rhan o'i dyletswyddau statudol i arolygu darparwyr ôl-16. Hefyd, caiff dadansoddiadau o'r data hyn eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio arolygiadau, adolygiadau thematig ac adroddiadau blynyddol.

- Awdurdodau lleol, lle y caiff data ar lefel disgyblion eu dadansoddi a'u defnyddio.

- Adran Addysg Llywodraeth y DU, i'w defnyddio yn yr Astudiaeth Hydredol o Ddeilliannau Addysgol (LEO). Bydd hyn yn cynnwys cysylltu cofnodion addysg â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau a ddelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF, er mwyn nodi a dadansoddi cyrchfannau dysgwyr mewn addysg bellach a/neu gyflogaeth ar ôl iddynt adael byd addysg. Bydd Medr yn dadansoddi'r data cysylltiedig hyn at ddibenion ystadegol ac ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd polisïau ym maes addysg a hyfforddiant – er enghraifft edrych ar faint o bobl â chymwysterau penodol sy'n mynd yn eu blaen i gael swyddi penodol, cymharu deilliannau pobl sy'n symud ymlaen at ddarparwyr addysg neu hyfforddiant gwahanol, neu weld a yw cynlluniau penodol wedi cyflawni'r hyn roeddent i fod i'w gyflawni.

- Sefydliadau ymchwil y bydd Medr yn eu contractio, a fydd yn gwneud gwaith ymchwil annibynnol neu'n cynnal arolygon neu weithgareddau dadansoddol er mwyn helpu i ddatblygu, gwerthuso a monitro addysg, sgiliau, y farchnad lafur a meysydd polisi cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru a ledled y DU. Gall hyn gynnwys cysylltu â dysgwyr a chyn-ddysgwyr i'w gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon, er mai eich dewis chi fydd cymryd rhan yn yr arolwg neu beidio os cysylltir â chi.

- Cyfrifwyr ac archwilwyr a fydd yn sicrhau y gall Medr asesu p'un a yw data y bydd sefydliadau'n eu dychwelyd yn sail ddibynadwy ar gyfer gwneud penderfyniadau cyllido ai peidio.

## Cytundebau Rhannu Data

Mae Medr wedi rhoi cytundeb rhannu data ffurfiol ar waith ar gyfer unrhyw adegau pan fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd parti. Mae'r cytundeb yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud â diogelwch, cyfrinachedd a chadw data, sy'n ei gwneud yn ofynnol i drydydd partïon roi mesurau diogelwch gwybodaeth priodol ar waith, defnyddio eich gwybodaeth mewn ffyrdd rhagnodedig yn unig, a dinistrio eu copïau o'ch data pan na fydd eu hangen mwyach.

## Diogelu eich gwybodaeth bersonol

Gwyddom mor bwysig yw diogelu a rheoli eich gwybodaeth bersonol. Mae gennym fesurau diogelwch ffisegol, technegol a sefydliadol sydd wedi ennill eu plwyf er mwyn cynorthwyo hyn. Ymhlith y mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith mae:

- mabwysiadu mesurau diogelu cyfrifiadurol megis waliau tân, amgryptio, protocolau trosglwyddo diogel, profion hacio, manylion diogelwch cymhleth, protocolau dilysu aml-ffactor, a mesurau rheoli mynediad gan gynnwys cyfyngu ar fynediad yn dibynnu ar gyfrifoldebau swydd
- ardystiad Cyber Essentials a chydymffurfiaeth barhaus â fframweithiau diogelwch cydnabyddedig y Llywodraeth a diwydiant
- fframwaith cynhwysfawr o bolisïau sy'n ymwneud a diogelu data, diogelwch gwybodaeth a rheoli cofnodion
- sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth rheolaidd ar gyfer ein cyflogeion er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth ym mhob rhan o'r sefydliad
- cynnal cofrestr diogelu data sy'n nodi'r holl wybodaeth bersonol a ddelir ac sy'n cynnwys manylion megis sail gyfreithlon dros brosesu, lleoliad, mesurau diogelwch a chadw
- cytundebau rhannu data a chymalau perthnasol mewn contractau sydd â goblygiadau i ddata personol
- hysbysiadau preifatrwydd er mwyn i unigolion wybod pa wybodaeth bersonol sydd gennym a pham
- cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data er mwyn adnabod risgiau a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data
- storio data yn y DU a pheidio â'i throsglwyddo y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Pe bai gofyniad i drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r AEE, dim ond i wledydd y mae eu deddfau diogelu data'n ddigonol yn ôl asesiadau'r Comisiwn Ewropeaidd, a lle mae mesurau diogelu digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelu data perthnasol, y caniateid trosglwyddo.

## Ymhlith eich hawliau a'ch dewisiadau o dan GDPR y DU mae:

- cael mynediad at y data personol sydd gan Medr amdanoch chi

- ei gwneud yn ofynnol i Medr gywiro gwallau yn y data hynny
- gwrthwynebu prosesu am resymau sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol (dan rai amgylchiadau)
- cyfyngu ar brosesu (dan rai amgylchiadau)
- gofyn am i'ch data gael eu dileu (dan amgylchiadau penodol)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

## Am faint o amser y bydd Medr yn cadw eich data?

Caiff eich data eu cadw am gyfnod amhenodol er mwyn galluogi Medr i'w dadansoddi ynghyd â data dysgwyr eraill a llunio adroddiadau. Caiff yr adroddiadau hyn eu defnyddio er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch polisïau addysg, dylanwadu arnynt a'u gwella, monitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd a/neu ragweld gofynion cyllido yn y dyfodol.

Yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr amrywiaeth o gyfrifoldebau strategol sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw data'r Casgliad Data Ôl-16 am gyfnod amhenodol, sef:

- Hyrwyddo dysgu gydol oes: Bydd cadw data yn galluogi Medr i dracio teithiau dysgwyr dros amser, gan gefnogi ei ddyletswydd i hyrwyddo dysgu gydol oes.

- Cyfle cyfartal: Bydd y wybodaeth gyfoethog a gesglir am ddysgwyr a'u nodweddion yn cyfrannu at fonitro hyn yn y tymor hir.

- Annog cyfranogiad: Bydd hyn yn fodd i dracio gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr yn hydredol, gan helpu i adnabod patrymau megis cyfranogiad parhaus, ymddieithrio dros dro, ac ailymuno â byd addysg yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd y ddirnadaeth hon yn hanfodol er mwyn deall a chefnogi llwybrau dysgu gydol oes.

- Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol: Bydd dirnadaethau a ddaw o ddadansoddiadau data hirdymor yn llywio prosesau datblygu'r gweithlu a strategaethau economaidd.

- Monitro a hyrwyddo gwelliant mewn ansawdd: Bydd data a gedwir yn cefnogi gallu Medr i asesu a gwella ansawdd addysg

## Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Fel rheolydd data, rydym yn gwbl ymrwymedig i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn croesawu unrhyw ymholiadau ynglŷn â phrosesu eich data a byddwn yn gwrando ar unrhyw bryderon a all fod gennych.

Cysylltwch â ni drwy e-bost neu drwy'r post:

**E-bost:** swyddogdiogeludata@medr.cymru

**Ysgrifennwch at:**

Swyddog Diogelu Data
Medr
2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ein cyfeirnod cofrestru ar gyfer diogelu data yw ZB552558.

## Cwynion ynglŷn â defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Os byddwch yn anfodlon ar y ffordd y gwnaethom drin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â naill ai gwybodaeth@medr.cymru neu ein Swyddog Diogelu Data a byddwn yn ceisio datrys y mater yn anffurfiol.

Os na allwn ddatrys y mater i'ch boddhad, gallwch hefyd wneud cwyn i'r awdurdod goruchwylio diogelu data. Yn y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod hwn, a gellir cysylltu â hi yn:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113
E-bost: casework@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu â changen Cymru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400
Cyfeiriad e-bost: cymru@ico.org.uk

## Hysbysu ynghylch newidiadau

Cafodd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 1 Ebrill 2026, a byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Byddwn bob amser yn eich hysbysu ynghylch newidiadau i'r ffordd y caiff eich data eu

defnyddio drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn a'ch darparwr. Bydd holl waith prosesu Medr yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

## Atodiad A

| Data nad ydynt yn bersonol | Nodiadau |
|---|---|
| Blwyddyn y rhaglen | Blwyddyn y rhaglen |
| Categori'r gweithgaredd dysgu | Er mwyn sicrhau y bydd manylebau rhaglenni astudio'n cyd-fynd â'r cyfeirlyfr rhaglenni astudio |
| Cyfeirnod y rhaglen | cyfeirnod ar gyfer y rhaglen y mae'r disgybl yn astudio arni yn y chweched dosbarth |
| Dangosydd rhan-amser | er mwyn nodi p'un a yw'r disgybl yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser ai peidio |
| Dyddiad dechrau'r gweithgaredd dysgu | Er mwyn nodi dyddiad dechrau'r rhaglen astudio neu'r gweithgaredd dysgu, a dylid ei ddefnyddio gyda'r dyddiad gorffen er mwyn cyfrifo hyd y dysgu |
| Dyddiad dechrau'r rhaglen | Dyma'r dyddiad pan ddechreuodd y disgybl ar y rhaglen yn y chweched dosbarth |
| Dyddiad gorffen disgwyliedig y gweithgaredd dysgu | Dyddiad gorffen disgwyliedig gweithgaredd dysgu'r disgybl |
| Dyddiad gorffen disgwyliedig y rhaglen | Dyma'r dyddiad gorffen disgwyliedig pan ddylai'r disgybl gwblhau'r rhaglen yn y chweched dosbarth |
| Dyddiad gorffen gwirioneddol y gweithgaredd dysgu | Er mwyn nodi dyddiad gorffen y rhaglen astudio neu'r gweithgaredd dysgu, a dylid ei ddefnyddio gyda'r dyddiad dechrau er mwyn cyfrifo hyd y dysgu |
| Dyddiad gorffen gwirioneddol y rhaglen | Dyma'r dyddiad gorffen gwirioneddol pan ddylai'r disgybl gwblhau'r rhaglen yn y chweched dosbarth |
| Dynodydd y rhaglen | dynodydd unigryw ar gyfer y rhaglen y mae'r disgybl yn astudio arni yn y chweched dosbarth |
| Enw'r ysgol | |
| Grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y disgybl | er mwyn nodi'r grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y caiff y disgybl ei addysgu ynddo am y rhan fwyaf o'i amser, waeth beth fo'i oedran |
| Gweithgaredd dysgu a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg | Er mwyn monitro cyfrwng cyflwyno gweithgareddau dysgu a ph'un a gânt eu cyflwyno'n ddwyieithog yn y model addysgu a fabwysiadwyd ai peidio |
| Hyd y rhaglen | Hyd y rhaglen |
| Oriau cyswllt dan arweiniad | Nifer arfaethedig yr oriau cyswllt dan arweiniad a ddefnyddir i fonitro'r ffordd y caiff manyleb rhaglen astudio ei chyflwyno, ac fe'i defnyddir i addasu gwerthoedd rhaglen astudio |
| QWAD | Dyma rif achredu unigryw Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau a |

| Data nad ydynt yn bersonol | Nodiadau |
|---|---|
| | gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru y bydd disgyblion yn eu hastudio yn y chweched dosbarth |
| Rhif adnabod y gweithgaredd dysgu | Er mwyn nodi'n unigryw bob rhaglen astudio a gweithgaredd dysgu y bydd disgybl yn ymgymryd â nhw. |
| Rhif yr AALl | cyfeirnod ar gyfer yr awdurdod lleol sy'n gysylltiedig â'r ysgol. |
| Rhif yr ysgol | cod unigryw a roddir i'r ysgol at ddibenion dadansoddiadau ystadegol. |
| Statws cofrestru | er mwyn nodi statws cofrestru dilys y disgybl |
| Statws cwblhau | Er mwyn nodi'r gweithgareddau dysgu hynny y mae disgyblion wedi cwblhau'r dysgu gofynnol ar eu cyfer yn llwyddiannus a'r gweithgareddau dysgu hynny y mae disgyblion wedi tynnu'n ôl ohonynt neu wedi cael eu trosglwyddo ohonynt. |
| Statws cwblhau'r rhaglen | Dyma statws cwblhau'r disgybl ar ddiwrnod y cyfrifiad |
| Y darparwr sy'n cynnal y gweithgaredd dysgu | Er mwyn nodi ble y caiff y gweithgaredd dysgu ei gynnal ac felly raddau'r trefniadau breinio/is-gontractio/partneriaeth rhwng ysgolion a darparwyr dysgu eraill. |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**